Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Ground Floor Seacole
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

Ffôn: 03459 335577
helpline@defra.gov.uk
www.gov.uk/defra

Dyddiad: 29/09/2026

Annwyl Ymgynghorai

Ymgynghoriad Technegol ar y Cofrestriad Trosiannol Amgen (ATRm) ar gyfer REACH y DU

1. Rydym yn ysgrifennu i wahodd safbwyntiau ar ddarpariaethau cyfreithiol drafft y llywodraeth sydd â'r bwriad o roi'r Cofrestriad Trosiannol Amgen (ATRm) ar waith ar gyfer REACH y DU.

2. Mae'r ymgynghoriad hwn yn dilyn cyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad polisi blaenorol ar yr ATRm ar 30 Mawrth 2026. Roedd yr ymateb hwnnw'n cadarnhau safbwynt polisi'r llywodraeth a'r camau nesaf ar gyfer cofrestriadau trosiannol o dan REACH y DU.

3. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch a yw'r darpariaethau cyfreithiol drafft i weithredu'r ATRm yn rhoi grym clir a chywir i'r dull polisi a gadarnhawyd yn ymateb y llywodraeth ac a oes unrhyw faterion drafftio, hepgoriadau, amwyseddau neu ganlyniadau anfwriadol posibl.

4. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para 4 wythnos. Mae'r ymgynghoriad yn agor ar 29 Medi 2026 ac yn dod i ben ar 27 Hydref 2026. Ar ôl cyhoeddi ymateb y llywodraeth ym mis Mawrth 2026, mae Defra wedi parhau i ymgysylltu â chynrychiolwyr y diwydiant a rhanddeiliaid eraill ynghylch gweithredu'r dull polisi a gadarnhawyd. Mae'r ymgysylltu blaenorol hwn, ynghyd â ffocws technegol cul yr ymgynghoriad ar y darpariaethau cyfreithiol drafft, yn golygu bod cyfnod ymgynghori o bedair wythnos yn cael ei ystyried yn briodol.

5. Mae'r dogfennau canlynol ar gael ar GOV.UK: ymgynghoriad technegol ar y cofrestriad trosiannol amgen (ATRm) ar gyfer REACH y DU

    - Llythyr Ymgynghori – Saesneg
    - Llythyr Ymgynghori - Cymraeg
    - Hysbysiad Preifatrwydd yr Ymgynghoriad

- Dogfen Ymgynghori – Saesneg
- Dogfen Ymgynghori – Cymraeg
- Erthygl 1 Datganiad Cysondeb – Saesneg
- Erthygl 1 Datganiad Cysondeb – Cymraeg
- Atodlen Keeling

Ymatebion

6. I gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch holiadur yr ymgynghoriad a ddarperir drwy Smart Survey (adnodd ymgynghori ar-lein yw Smart Survey).

7. Os oes arnoch angen copi o'r ymgynghoriad, cysylltwch â ni drwy REACHdefra.gov.uk@defra.gov.uk

8. Dylid ymateb erbyn 27 Hydref 2026.

   Gallwch hefyd anfon ymatebion neu wybodaeth neu ddogfennau ychwanegol:

   Drwy anfon e-bost i: REACHdefra.gov.uk@defra.gov.uk

   Drwy'r post i:
   Ymgynghoriad Technegol ar yr ATRm ar gyfer REACH y DU
   Tîm Polisi a Deddfwriaeth REACH y DU,
   Defra Ground Floor, Seacole Building,
   2 Marsham Street,
   Llundain, SW1P 4DF

Meini prawf ymgynghori

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag egwyddorion ymgynghori Swyddfa'r Cabinet.

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli a, lle bo hynny'n berthnasol, gyda phwy arall y maent wedi ymgynghori wrth ddod i'w casgliadau pan fyddant yn ymateb.

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan llywodraeth y DU yn: www.gov.uk/defra. Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd a pha ran o'r DU maen nhw'n ei chynrychioli ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriad na manylion cyswllt eraill.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth. Rydym yn parchu eich preifatrwydd personol wrth ymateb i geisiadau mynediad at wybodaeth. Dim ond os bydd angen i fodloni gofynion statudol

Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y byddwn yn rhannu gwybodaeth.

Defnyddio eich gwybodaeth a'i rhannu

Mae sut rydym yn defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn hysbysiad preifatrwydd yr ymgynghoriad a'r ymarfer galwad am dystiolaeth sydd ar gael yma Hysbysiadau preifatrwydd - GOV.UK (www.gov.uk).

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw drwy e-bost i: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Diolch i chi am roi o'ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni uchod.

Yn gywir,

Tîm Polisi a Deddfwriaeth REACH y DU
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig